Creu magl

Ydych chi'n gwybod beth sy'n rhedeg o gwmpas yn y nos? Dyma eich cyfle i ddarganfod sut. Gallai fod yn ddifyr!

Byddwch angen

- Potyn iogwrt neu gwpan plastig
- Trywel
- Banana
- Siswrn

1 Gwnewch dyllau bach yng ngwaelod y cwpan neu'r potyn.

2 Dewisiwch le i roi eich magl. Byddai lle gyda llawer o blanhigion o gwmpas yn ddelfrydol – dyna ble mae'r trychfilod yn byw.

3 Palwch dwll yr un maint â'ch potyn neu'ch cwpan.

4 Gwthiwch eich potyn neu'ch cwpan i mewn fel bod yr ymyl yr un lefel â'r tir.

5 Rhowch ddarn o fanana tu mewn, ac ychwanegwch ychydig o ddail i roi cysgod i'ch trychfilod.

6 Gadewch y magl yno dros nos ac yna ewch i weld beth sydd y tu mewn.

7 Unwaith rydych wedi casglu ac edrych ar eich trychfilod, cofiwch fynd â'ch potyn allan i'w rhyddhau eto. Cofiwch beidio â gadael unrhyw botyn yn y ddaear.

Byddwch yn ffeind i'ch trychfilod

Dim ond ar noson sych y dylech roi eich magl allan, neu gallai'r creaduriaid bach foddi! Rhyddhewch nhw lle daethoch o hyd iddyn nhw.

rspb yn rhoi cartref i fyd natur

Mae'r RSPB yn elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr, yn Yr Alban SC037654 040-1-0513-16-17
Lluniau gan Eleanor Bentall (rspb-images.com).